



**Cyfarfod Cyngor Tref Tregaron Mis Chwefror / Tregaron Town Council February Meeting**  
**Nos Lun / Monday 17.02.2025**

7.00yh/pm – yn Neuadd Goffa Tregaron / Memorial Hall

**COFNODION CYFARFOD MIS CHWEFROR / FEBRUARY MEETING MINUTES**

1.	<p><b>CROESO / WELCOME</b> Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod. <i>The Chair welcomed everyone to the meeting.</i></p> <p>PRESENNOL / <i>PRESENT</i>: Cyng/Cllr Catherine Hughes (Cadeirydd / <i>Chair</i>), Arwel Jones, Rhian Jones, Gwion James, Rhian Hughes, Dafydd Richards, Jo-Alice Davies, Dewi Evans &amp; Meirian Morgan</p> <p>Clerc / <i>Clerk</i> – Fflur Lawlor</p>	
2.	<p><b>YMDDIHEURIADAU / APOLOGIES</b> Cyng / Cllr. Sian Jones &amp; Owain Pugh.</p>	
3.	<p><b>MATERION PERSONOL / PERSONAL MATTERS</b> Dymunwyd yn dda i'r Cyng. Ifan Davies ar ôl ei lawdriniaeth yn ddiweddar. <i>Best wishes were extended to Cllr. Ifan Davies after his recent operation.</i></p>	
4.	<p><b>ADRODDIAD YR HEDDLU / POLICE REPORT</b> Ni allai PCSO John Evans fynychu'r cyfarfod a darllenodd y Clerc e-bost a anfonwyd gyda gwybodaeth. Clerc i fynd yn ôl at PSCO John Evans gyda rhai cwestiynau ynglŷn â gwahanol faterion a godwyd. <i>PCSO John Evans could not attend the meeting the Clerk read out an email sent with information. Clerk to go back to PSCO John Evans with some questions regarding different issues raised.</i></p>	
5.	<p><b>DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL / DECLARATION OF PERSONAL INTEREST</b> 8 A – Ymgynghoriad ar Ganllawiau Cynllunio Atodol Drafft / <i>Consultation on Draft Supplementary Planning Guidance</i> - Cyng/Cllrs Catherine Hughes &amp; Gwion James.</p>	
6.	<p><b>CADARNHAU COFNODION / CONFIRM MINUTES – 16/01/2025</b> Cytunwyd bod y cofnodion yn rhai cywir. <i>It was agreed that this was a true record of the minutes.</i></p> <p>Cynnig/<i>Proposed</i>: Cyng/Cllr Rhian Jones Eilio/<i>Seconder</i>: Cyng/Cllr Rhian Hughes</p>	
7.	<p><b>MATERION YN CODI O'R COFNODION / MATTERS ARISING FROM MINUTES</b></p> <p>8. A) Opsiynau ar gyfer Darparu Toiledau Cyhoeddus Tregaron. Clerc wedi ymateb i CSC ond heb glywed dim.</p>	

	<p><i>Options for Provision of Tregaron Public Toilets</i>  <i>Clerk has repoded to CCC but has not heard anything.</i></p> <p>9. Praesept - Clerc wedi dychwelyd y ffurflen praesept i CSC.  <i>Precept - Clerc has returned the precept form to CCC.</i></p>	
8.	<p><b>CYNGOR SIR CERDIGION COUNTY COUNCIL</b></p> <p>a. Gwybodaeth a dderbyniwyd wrth CSC / <i>Information received from CCC –</i>  Ebyst wedi cael eu danfon ymlaen at y Cynghorwyr cyn y cyfarfod / <i>Emails forwarded to Councillors prior to meeting.</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 22/01/2025 – Hyfforddiant Cod Ymddygiad i Gynghorwyr Trefi a Chymunedau 11/2/25 / <i>Code of Conduct Training Town &amp; Community Councillors 11/2/25</i></li> <li>• 24/01/2025 - Bwletin Costau Byw Ceredigion: Arwahanrwydd Cymdeithasol ac Unigrwydd   <i>Ceredigion Cost of Living Bulletin: Social Isolation and Loneliness</i></li> <li>• 28/01/2025 - Cau Ffordd Dros Dro / <i>Temporary Road Closure: B4342A Bwlchllan, Llangeitho</i></li> <li>• 30/01/2025 - Ymgynghoriad ar Ganllawiau Cynllunio Atodol Drafft / <i>Consultation on Draft Supplementary Planning Guidance – trafodwyd a'r Cynghorwyr i anfon sylwadau at y Clerc / was discussed and Councillors to send comments to the Clerk.</i></li> <li>• 30/01/2025 - FW: Cau Ffordd Ar Brys/<i>Emergency Road Closure: B4343 Llanddewi Brefi</i></li> <li>• 05/02/2025 - Cau Ffordd Ar Brys / <i>Emergency Road Closure: U1504 Tregaron</i></li> <li>• 06/02/2025 - Cronfa Cynnal y Cardi CYDNABYDDIAETH A CHYHOEDDUSRWYDD / <i>RECOGNITION AND PUBLICITY Cynnal y Cardi Fund</i></li> <li>• 06/02/2025 - FW: Cau Ffordd Dros Dros/<i>Temporary Road Closure: B4343 Tregaron</i></li> <li>• 06/02/2025 - FW: Cau Ffordd Dros Dros/<i>Temporary Road Closure: B4343 Tregaron - DIWYGIEDIG/AMENDMENT</i></li> <li>• 07/02/2025 – Cynllun Lle Tregaron <i>Place Plan</i> - Cytunodd pawb i ganiatáu i'r Cynllun Lle gael ei arddangos ar wefan CSC.  <i>All in agreement to allow the Place Plan to be displayed on CCC website.</i></li> <li>• 10/02/2025 - Ymgynghoriad Cyhoeddus Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol / <i>Regional Transport Plan Public Consultation</i></li> <li>• 10/02/2025 - Cau Ffordd Dros Dro / <i>Temporary Road Closure: U1373 Tregaron</i></li> <li>• 14/02/2025 - Hyfforddiant Cod Ymddygiad i Gynghorwyr Trefi a Chymunedau 11/2/25 <i>Code of Conduct Training Town &amp; Community Councillors - Dogfennau/Documents</i></li> </ul> <p>b. Diweddariad gan yr Aelod Lleol / <i>Update from the Local Member, Cyng/Cllr Ifan Davies –</i>  Dim i'w gofnodi.  <i>Nothing to report.</i></p>	Clerc / Clerk

<p>9.</p>	<p><b>CYFRIFON / FINANCIAL MATTERS</b></p> <p>a) <u>Balans y Banc / Bank Balance</u> –</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfrif Busnes Cyfredol / Business Current – £5266.24</li> <li>• Cyfrif Busnes wrth gefn / Business Reserve – £5587.33</li> <li>• Cyfrif Busnes Cyfredol / Business Current (Cadeirydd / <i>Chairman</i>) – £1925.26</li> <li>• Cyfrif Busnes wrth gefn / Business Reserve (<i>Gratuity</i>) – £766.56</li> </ul> <p><u>Taliadau mis Ionawr / January payments</u> –</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflog Gweithiwr Strydlun / <i>Streetscene worker salary</i> £303.70</li> <li>• Cyflog y Clerc / <i>Clerk salary</i> £336.00</li> <li>• HMRC £159.80</li> <li>• E.Jenkins - Adnewyddu Gwesteio Gwefan / <i>Website Hosting Renewal</i> £274.36</li> <li>• Design Yo! £96.00</li> <li>• CCF £10.09</li> <li>• Pugh Computers (Microsoft 360) £148.32</li> <li>• Zurich (Adnewyddu Yswiriant / <i>Insurance Renewal 2025/2026</i>) £1,608.44</li> </ul> <p>Cynnig/<i>Proposed</i>: Cyng/Cllr Arwel Jones Eilio/<i>Seconder</i>: Cyng/Cllr Dewi Evans</p> <p>b) <u>Incwm / Income</u> – Dim i'w gofnodi. Nothing to report.</p>	<p>Clerc / Clerk</p>
<p>10.</p>	<p><b>ADRODDIAD Y GWEITHIWR STRYDLUN / STREET SCENE WORKER REPORT</b></p> <p>Dim i'w gofnodi. <i>Nothing to report.</i></p> <p>Mae angen gwneud y canlynol -</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Glanhau prif strydoedd y dref yn wythnosol - Pentre, Sgwâr, Ffordd yr Orsaf, Stryd y Capel, Heol Pontrhydefendigaid.</li> <li>• Glanhau strydoedd eraill yn eu tro.</li> </ul> <p><i>The following needs to be done</i> –</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Main streets of the town to be cleaned weekly – Pentre, Square, Station Road, Chapel Street, Pontrhydefendigaid Road.</i></li> <li>• <i>Other streets to be cleaned in rotation.</i></li> </ul>	<p>Clerc / Clerk</p>
<p>11.</p>	<p><b>ADRODDIADAU IS-BWYLLGORAU / SUB-COMMITTEES REPORTS</b></p> <p><u>Is-bwyllgor Parc a Blodau / Park &amp; Flowers Sub Committee</u></p> <p>a. Parc / Park</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Gwiriadau Iechyd a Diogelwch y Parc i barhau bob pythefnos - Cyng. Jo-Alice Davies i gynnal y gwiriadau yn Chwefror/Mawrth. Diolchwyd i Cyng Meirian Morgan am wneud mis diwethaf. <i>Fortnightly Weekly Health &amp; Safety checks of the Park to continue – Cllr. Jo-Alice Davies to carry out the checks for February/March. Thanks was extended to Cllr Meirian Morgan for doing last month.</i></li> </ul>	<p>Cyng / Cllr Jo-Alice Davies</p>
<p>12.</p>	<p><b>CEISIADAU CYNLLUNIO / PLANNING APPLICATIONS</b></p> <p><b>Rhif y Cais / Application:</b> A250057 <b>Ymgeisydd / Applicant:</b> Ms C. Viney <b>Safle / Site:</b> Llysofen, Tregaron, Ceredigion, SY25 6NB</p>	

**Y bwriad / Intention:** Gosod pwmp gwres / *Heat pump installation*

Dim gwrthwynebiad / *No objection*

**Rhif y Cais / Application:** A250055

**Ymgeisydd / Applicant:** Mr and Mrs Jeff & Margaret Rees

**Safle / Site:** Tynswydd, Tynreithin, Tregaron, SY25 6LW

**Y bwriad / Intention:** Ail adeiladu tŷ a ddifrodwyd gan dân / *Proposed reinstatement of fire damaged dwelling*

Dim gwrthwynebiad / *No objection*

13. **PROSIECTAU I'R DYFODOL / FUTURE PROJECTS**

Prif flaenoriaethau'r Cyngor Tref yw / *The Town Council's main priorities are -*

- 1) Llwybr Ystwyth / *Ystwyth Trail*
- 2) Cae pob tywydd & Trac Rhedeg / *All weather pitch & Running Track*
- 3) Gardd Gymunedol / *Community Garden*
- 4) Prosiect Peilot Cau Sgwâr / *Square Closure Pilot project*

Prif flaenoriaeth y Cyngor Tref am 2024/2025 yw prosiect Llwybr Ystwyth. Cyng Arwel Jones a Dewi Evans i symud y prosiect ymlaen ac i hysbysu'r Cyngor Tref am unrhyw ddatblygiadau.

*The Town Council's main priority for 2024/2025 is the Ystwyth Trail project. Cllrs. Arwel Jones & Dewi Evans to move the project forward and to keep the Town Council informed of any developments.*

Clerc wedi drafftio Cynllun Prosiectau'r Dyfodol – Cynghorwyr i gymryd cyfrifoldeb am un prosiect ac arwain –

*Clerk has drafted a Future Projects Plan – Councillors to take responsibility for one project and lead –*

	Prosiect / Project	Pwy / Who	Diweddariad / Update
1.	Llwybr Ystwyth / <i>Ystwyth Trail</i>	Cyng/Cllr Arwel Jones, & Dewi Evans	Ar waith <i>Ongoing</i>
2.	Gwefan i'r dref a'r Bwrdd Digidol / <i>Town Website &amp; Digital Board</i>	Cyng/Cllr Meirian Morgan & Arwel Jones Clerc/Clerk	Ar waith – Gwelir isod <i>Ongoing – See below</i>
3.	Ffynnon Garon	Cyng/Cllr Rhian Jones & D. Roberts	Ar waith <i>Ongoing</i>
4.	Llyfryn Llwybrau Tregaron / <i>Tregaron Trails booklet</i>	Cyng/Cllr Arwel Jones	Ar waith – Gwelir isod <i>Ongoing – See below</i>
5.	Gardd Gymunedol / <i>Community Garden</i>	Cyng/Cllr Rhian Hughes & Arwel Jones	Aros am y brydles gan CSC Waiting for the lease from CCC  Ffes 2 Ar waith – yn y gwanwyn Phase 2 Ongoing – in the spring

	<p>1. Llwybr Ystwyth / <i>Ystwyth Trail</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Mae angen i hyn fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor Tref ac mae angen symud ymlaen. Byddai o fudd mawr i'r dref pe gallai'r prosiect hwn symud ymlaen. Nid yw CSC yn gwneud pryniannau gorfodol. Cyng Arwel Jones a Dewi Evans wedi cwrdd â CNC a CSC i drafod ymhellach. Mae'r ddau asiantaeth yn gefnogol ond bydd yn cymryd amser i'w symud ymlaen. Clerc i gysylltu â CSC i drefnu cyfarfod arall i drafod. <i>This needs to be a priority for the Town Council and we need to move it forward. It would be of great benefit to the town if this project could move forward. CCC don't do compulsory purchases. Cllr Arwel Jones and Dewi Evans have met with NRW to discuss further and CCC. Both agencies on board but it will take time to move it forward.</i> <i>Clerc to contact CCC to arrange another meeting to discuss.</i></li> </ul> <p>8. Grant Cynnal y Cardi <i>Grant</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Mae holl brosiectau Cynnal y Cardi wedi'u cwblhau. Mae'r Clerc wedi cyflwyno'r hawliad terfynol gyda'r holl dystiolaeth i'r Cyngor Sir. Diolchodd y Cadeirydd i bawb a fu'n ymwneud â'r prosiectau. <i>All Cynnal y Cardi projects have been completed. The has Clerk submitting the final claim to the County Council. The Chair thanked everyone who had been involved with the projects.</i></li> </ul>	Cyng/Cllr Arwel Jones & Dewi Evans
14.	<p><b>UN LLAIS CYMRU / ONE VOICE WALES</b></p> <p>Ebyst wrth Un Llais Cymru – wedi cael eu danfon ymlaen at y Cyngorwyr cyn y cyfarfod. Clerc i gysylltu âg Un Llais Cymru i weld pa bolisiau ddylai fod gan y Cyngor.</p> <p><i>Emails from One Voice Wales Ward - forwarded to Councillors prior to meeting.</i> <i>Clerc to contact One Voice Wales to see what policies the council should have.</i></p>	
15.	<p><b>GOHEBIAETH / CORRESPONDENCE</b></p> <p>15.1 – Cadw eich strydoedd cymunedol yn ddiogel yng Nghyngor Cymuned Tregaron <i>Keeping your community streets safe in Tregaron Community Council.</i></p> <p>15.2 – E-bost wedi'i dderbyn gan breswlydd lleol ynghlŷn â'r clawdd sydd wedi gordyfu a pharcio ym Mhenrodyn - materion wedi'u datrys erbyn hyn. <i>Email received from a local resident with regards to the overgrown hedge &amp; parking in Penrodyn - all been resolved.</i></p> <p>15.3 – Rhaglen Arolygon Etholiadol 2025 <i>Electoral Review Programme</i></p> <p>15.4 – Cymorth ariannol / <i>Financial Assistance</i> –</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• HAHAV</li> </ul>	
16.	<p><b>UNRHYW FATER ARALL / ANY OTHER BUSINESS</b></p> <p>16.1 – Mapiau Tref - derbyniwyd trwy system CLIC CSC ynghlŷn â'r mapiau tref gan breswlydd lleol gyda rhai awgrymiadau y dylid eu cynnwys ar y mapiau megis 'rydych chi yma', toiledau cyhoeddus ac na ddylai'r ysbyty fod ar y map.</p>	

	<p>Trafodwyd yr uchod a phenderfynwyd gweld os oedd modd cael sticeri 'pin drop' i'w hychwanegu at y mapiau. Mae'r Ysbyty dal ar agor a chynhelir clinigau yno yn ogystal â'r Nyrsys Cymunedol yn gweithio allan o'r adeilad. Nid yw'r Toiledau Cyhoeddus wedi'u cynnwys oherwydd y trafodaethau gyda CSC gan eu bod dan fygythiad o gau. Clerc i ymateb.</p> <p><i>Town Maps - an enquiry has been received via CLIC CCC with regards to the town maps from a local resident with some suggestions that should be included on the maps such as 'you are here', public toilets and that the hospital shouldn't be on the map.</i></p> <p><i>The above was discussed and it was decided to see if it was possible to get 'pin drop' stickers to add to the maps. The Hospital is still open and clinics are held there as well as the Community Nurses working out of there. The Public Toilets haven't been included due to being in discussion with CCC as they are under threat of closure. Clerk to respond.</i></p> <p>16.2 – Gill Burne – RAY Ceredigion</p> <p>Eisiau mynychu cyfarfod o'r Cyngor i drafod prosiect newydd y maent wedi derbyn arian ar ei gyfer yn Nhregaron. Pawb yn gytûn iddi fynychu cyfarfod mis Mawrth. Clerc i drefnu.</p> <p><i>Wants to attend a Council meeting to discuss a new project that they've received funding for in Tregaron. All in agreement for her to attend the March meeting. Clerk to arrange.</i></p> <p>16.3 – Zurich (Adnewyddu Yswiriant 2025/2026) - pawb yn cytuno i adnewyddu gyda Zurich. <i>Zurich (Insurance Renewal 2025/2026) - all in agreement to renew with Zurich.</i></p> <p>16.4 – Gŵyl Dewi / St Davids</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Dathliad Gŵyl Dewi / St.Davids Day celebration</i> Cynhelir Parêd Dydd Gŵyl Dewi eto eleni. Cyng Catherine Hughes wedi cwrdd â Ysgol Henry Richard a Cered i drafod a threfnu. Bydd y dathliad yn cael ei gynnal ar ddydd Gwener 21ain Chwefror – cwrdd yn YHR am 1.45pm i gyd-gerdded lawr i'r Neuadd Goffa ble bydd YHR yn ein diddanu. Bydd Gwobr Gŵyl Dewi yn cael ei gyflwyno hefyd. <i>The St David's Day Parade will be held again this year. Cllr Catherine Hughes has met with Ysgol Henry Richard and Cered to discuss and organise the event. The celebration will be held on Friday 21st February - meet at YHR at 1.45pm to walk together down to the Memorial Hall where YHR will entertain us. The St David's Award will also be presented.</i></li> <li>• <i>Gwobr Gŵyl Dewi / St.Davids Day Award</i> Penderfynwyd parhau â'r Wobr eto eleni a'r un aelodau ar y panel a llynnedd. Enillydd gwobr llynnedd i arwain yr orymdaith o'r ysgol i'r neuadd. Clerc yn cyfarfod gyda'r panel i drafod y ceisiadau. <i>It was decided to continue with the Award again this year with the same selection panel members as last year. Last year's award winner to lead the parade from the school to the hall. Clerk is meeting with the panel to discuss the applications.</i></li> </ul>	<p>Clerc / Clerk</p> <p>Clerc / Clerk</p> <p>Clerc / Clerk</p> <p>Clerc / Clerk</p> <p>Clerc / Clerk</p>
--	---	--

	<p>16.5 – Tendr - Clerc i hysbysebu tendr Torri Blodau a Gwair a'r tendrau a dderbyniwyd i'w trafod yng nghyfarfod mis Mawrth. <i>Tender - Clerk to advertise the Flowers &amp; Grass Cutting tender and submissions to be discussed at the March meeting.</i></p> <p>16.6 – E-bost gan aelod o deulu preswlydd lleol a fu farw yn ddiweddar ynglŷn â rhoi mainc yn y dref er cof am yr unigolyn. Pawb yn gytûn i fainc gael ei lleoli ger y Llew Coch ac iddynt fynd at berchennog y Llew Coch am ganiatâd. <i>Email from a family member of a local resident who recently passed away about putting a bench in the town in memory of the individual. All in agreement for a bench to be located by the Llew Coch and for them to approach the owner of the Llew Coch for permission.</i></p> <p>16.7– Cyng / Cllr Gwion James – Mae Clwb Seiclo Caron yn ddiolchgar am y gorsafoedd beiciau / stondin cynnal a chadw sydd wedi eu gosod yn y dref yn ddiweddar. Maent yn ychwanegiad ac yn adnodd gwych i'w cael yn y dref. <i>Caron Cycling Club is grateful for the bike stands / maintenance stand that have been installed in the town recently. They are a great addition and resource to have in town.</i></p> <p>16.8 – Cyng / Cllr Dafydd Richards – Y stand beiciau ar y sgwâr – ydy bosib ei symud i leoliad gwell. Pawb yn gytun. Cyng Dafydd Richards a Gwion James i drefnu. <i>The bike stand on the square – could it be moved to a better location. All in agreement. Cllr Dafydd Richards &amp; Gwion James to arrange.</i></p> <p>16.9 – Cyng / Cllr Arwel Jones – Torri gwair yr ymyl ger Fanog - roedd CSC i fod i'w dorri y llynedd ond ni wnaethpwyd hynny. Clerc i gysylltu â CSC i ofyn iddynt glirio'r tyfiant a thorri'r gwair. Da gweld bod y Neuadd Goffa yn y broses o uwchraddio'r cyfleusterau yn yr Ystafell Snwcer a'i bod yn mynd i ail agor yn fuan. <i>Grass cutting of the verge by Fanog - CCC were meant to cut it last year but it wasn't done. Clerk to contact CCC to ask them to clear the vegetation and cut the grass. Good to see that the Memorial Hall are in the process of upgrading the facilities at the Snooker Room and that it's going to re-open soon.</i></p> <p>16.10 – Pot blodau ger cyffordd y Clwb Rygbi – Clerc i drefnu i gael ei symud i sied y Cyngor i'w storio. <i>Flowerpot by the Rugby Club junction – Clerk to arrange for it to be moved to the Council shed to store.</i></p>	Clerc / Clerk
17.	Terfynwyd y cyfarfod / Meeting was closed	